

Anrhydeddus Gymdeithas  
Y Cymmrodorion  
Sefydlwyd 1751



The Honourable Society  
Of Cymmrodorion  
Founded 1751

**NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES**

# **Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon**

**am y cyfnod  
1 Ionawr 2018  
hyd at  
31 Rhagfyr 2018**

**Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion  
157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE**

**Rhif Elusen Cofrestredig 313141  
[www.cymmrodorion.org](http://www.cymmrodorion.org)**



## Anrhydeddus Gymdeithas Y Cymmrodorion

### Adroddiad a Chyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2018 hyd at 31 Rhagfyr 2018

Cynnwys	Tudalen
Gwybodaeth Cyfeirio a Gweinyddol	1
Llywodraethu	2
Dogfen Llywodraethu: y Siarter Brenhinol	2
Cyfrifoldebau'r Cyngor	2
Recriwtio a Phenodi Aelodau'r Cyngor	2
Cynefino a Hyfforddi'r Ymddiriedolwyr	2
Y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol	3
Partïon Perthynol	3
Rheoli Risg	3
Strwythur Cyfundrefnol	3
Swyddogion	3
Pwyllgorau'r Cyngor	4
Amcanion Elusennol	5
Gweithgareddau a Chyflawniadau	5
Rhaglen Darlithoedd a Thrafodaethau	5
Cyhoeddiadau a Gwybodaeth Ar-lein	7
Annog Astudiaeth ac Ymchwil	8
Gweithio gyda Sefydliadau Eraill	8
Sut Mae Gweithgareddau'r Gymdeithas yn Cyflwyno Budd Cyhoeddus	9
Datganiad	10
Arolwg Ariannol	11
Polisi ar Gadw a Buddsoddi Cronfeydd	12
Datganiadau Cyllidol am y Flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2018	13
Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwyr	14
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr	15
Datganiadau Cyllidol hyd at 31 Rhagfyr 2018: Derbyniadau a Thaliadau	16
Rhestr Asedau ar 31 Rhagfyr 2018	17

# Gwybodaeth Cyfeirio a Gweinyddol

Enw'r Elusen:	Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion
Enw Saesneg yr Elusen:	The Honourable Society of Cymmrodorion
Rhif Cofrestru'r Elusen:	313141
Swyddfa Gofrestredig	157-163 Gray's Inn Road Llundain WC1X 8UE
Gwefan:	<a href="http://www.cymmrodorion.org">www.cymmrodorion.org</a>
Noddwr Brenhinol:	Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru

## Aelodau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr yr Elusen)

Mrs Anne Arnold (tan 30 Mai 2018)	Mr Peter Jeffreys (tan 30 Mai 2018)
Yr Athro Thomas M O Charles-Edwards FRHistS FBA FLSW (2020)	Mr Robert John (2021)
Yr Athro W Stuart Cole CBE FCIT FILT (2020)	Mr Mathew Kidwell (2020)
Mr Rhys David (2021) (o 27 Chwefror 2018)	Mr R Kenneth Kyffin CEng MIEE (2019)
Mr Huw Llywelyn Davies (2020)	Y Parchedig Dr Adrian Morgan (2019)
Dr Rhian Davies (2019)	Yr Athro Prys Morgan DL FSA FRHistS FLSW (2019)
Mrs Elinor Talfan Delaney (2021)	Ms Ceridwen Roberts OBE FAcSS FLSW (2018)
Yr Athro Helen Fulton FLSW (2020)	Ms Rhian Medi Roberts (2018)
Mr Michael Gibbon QC (2019)	Dr Sara Elin Roberts (2019)
Mr Arwyn Lloyd Hughes FRHistS FSA (tan 30 Mai 2018)	Dr Lynn Williams FLSW (2019)
	Mr Huw Wynne-Griffith (2020)

Ac eithrio pan nodir hyn, gwasanaethodd yr unigolion a restrir uchod fel Ymddiriedolwyr yr Elusen a Chyfarwyddwyr trwy gydol y cyfnod sy'n destun i'r Adroddiad hwn (1 Ionawr 2018 i 31 Rhagfyr 2018) a buont yn aelodau ar y dyddiad (26 Chwefror 2019) y cymeradwywyd yr Adroddiad. Y flwyddyn a welir mewn cromfachau ar ôl pob enw yw'r flwyddyn pan fydd tymor yr aelod yn dod i ben.

## Arholwr Annibynnol

R A J Waddingham CBE FIA, Flat 33, Riverside Court, 20 Nine Elms Lane, Llundain SW8 5DB

## Bancwyr

HSBC Bank plc, 196 Oxford Street, Llundain W1D 1NT

# Llywodraethu

## Dogfen Llywodraethu: y Siarter Brenhinol

Sefydlwyd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ym 1751 a chafodd ei Siarter Brenhinol ym 1951. Y Siarter a'r Is-ddeddfau sydd bellach mewn grym yw'r rhai a addaswyd dan Orchymyn y Cyfrin Gyngor ar 21<sup>ain</sup> Gorffennaf 1999.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor

Rhydd y Siarter ganiatâd i'r Cyngor "gael rheolaeth a meistrolaeth ar y Gymdeithas ynghyd â gweinyddu'r holl eiddo a'r incwm sydd ynghlwm". O'r herwydd mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i weithredu pwerau'r Gymdeithas i hyrwyddo ei hamcanion. Diffinir pwerau ac amcanion y Gymdeithas yn y Siarter. Mae'r Gymdeithas yn Elusen Gofrestredig (Rhif 313141) ac mae aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr yr Elusen at ddiben cyfraith elusen. Rhydd pob aelod o'r Cyngor o'u hamser yn wirfoddol ac ni allant elwa o gwbl o'r elusen. Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith bob blwyddyn.

## Recriwtio a Phenodi Aelodau'r Cyngor

Dan Siarter ac Is-ddeddfau'r Gymdeithas:

- dylai'r Cyngor gael o leiaf deuddeg Aelod a dim mwy na deg ar hugain;
- dylai traean o aelodau'r Cyngor ymddeol yn eu tro bob blwyddyn;
- bydd aelodau'r Cyngor yn gymwys i gael eu hail-ethol heb gyfyngiad;
- llenwir unrhyw leoedd gwag trwy etholiad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gymdeithas;
- bydd gan y Cyngor allu i lenwi lleoedd gwag ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn dibynnu ar gadarnhad o hyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf.

Gall yr aelodau enwebu un neu fwy o unigolion ymysg eu nifer i'w hethol i'r Cyngor gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Yn dilyn penderfyniad blaenorol y Cyngor i chwarae rhan mwy rhagweithiol mewn nodi Ymddiriedolwyr newydd, roedd y gwahoddiad a anfonwyd i aelodau'r Gymdeithas yn ystod y Gwnawyn 2018 i enwebu aelodau newydd i'r Cyngor wedi tynnu sylw'r aelodau at nifer o feysydd, ar sail yr arolwg o sgiliau a phrofiadau'r aelodau presennol, y gellid eu defnyddio gan y Cyngor.

Yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym Mai 2018, etholwyd neu ail-etholwyd yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd: Mr Rhys David; Mrs Elinor Talfan Delaney; Mr Robert John; Ms Ceridwen Roberts and Ms Rhian Medi Roberts. Dymuna'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad o'r gwasanaeth a roddwyd dros nifer o flynyddoedd gan Mrs Anne Arnold; Mr Arwyn Lloyd Hughes, a oedd wedi gwasanaethu ar nifer o Bwyllgorau ac a oedd wedi cynrychioli'r Gymdeithas ar Bwyllgor Cynghori y Bywgraffiadur Cymreig; a Mr Peter Jeffreys, a oedd wedi rhoi gwasanaeth nodedig fel Ysgrifennydd Mygedol y Gymdeithas.

## Cynefino a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Rhoddyd y dogfennau perthnasol i'r Ymddiriedolwyr ynghylch eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Elusennau ac mae'r Cyngor wedi ymgymryd i dderbyn diweddariad blynnyddol ar rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusen. Mae gan aelodau'r Cyngor brofiad eang o lywodraethu a materion sy'n berthnasol i weinyddiaeth elusennau ac maent yn gyfarwydd iawn â phwrpas ac amcanion y Gymdeithas a'i gwaith.

## **Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Rhan o fusnes Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol aelodau'r Gymdeithas yw derbyn datganiad y Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr blaenorol ynghyd ag adroddiadau cysylltiol yn ogystal ag ethol rhai o Swyddogion y Gymdeithas ac aelodau'r Cyngor.

## **Partïon Perthynol**

Mae'r Gymdeithas yn sefydliad hollol annibynnol ond mae'n canlyn rhyngweithredu adeiladol gydag ystod o gyrff eraill, yn enwedig cymdeithasau a sefydliadau lleol a chenedlaethol yng Nghymru a Llundain.

## **Rheoli Risg**

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gymdeithas ac o'r gweithdrefnau a'r systemau a oedd wedi eu rhoi yn eu lle i reoli a lliniaru'r risgiau a oedd wedi'u dynodi. Mae'r Cyngor yn adolygu a diweddarau'r rhestr o risgiau o leiaf unwaith bob blwyddyn.

# **Strwythur Cyfundrefnol**

## **Swyddogion**

### ***Llywydd***

Mae Llywydd y Gymdeithas yn aelod o'r Cyngor yn rhinwedd ei swydd ac fe'i etholir yn flynyddol gan yr aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ail-etholwyd yr Athro Prys Morgan fel Llywydd ar 30 Mai 2018.

### ***Is-Lywyddion***

Dan yr is-ddeddfau caniateir cael (nifer amhenodol) o Is-Lywyddion, sy'n destun i etholiad neu ail-etholiad bob blwyddyn gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae swydd Is-Lywydd yn un anrhydeddus ac nid yw'r Is-Lywyddion yn aelodau o'r Cyngor yn rhinwedd eu swyddi. Ail-etholwyd un Is-Lywydd ar bymtheg yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 30 Mai 2018. Gyda thristwch mawr nodwyd farwolaeth dau o Is-Lywyddion y Gymdeithas yn ystod 2018, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Crughywel MA a Mr Kenneth Bowen MA DMus Hon RAM ARCM FRSA. Dymuna'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad o'r gwasanaeth ardderchog o roddwyd gan yr Arglwydd Crughywel a Mr Bowen i'r Gymdeithas.

### ***Cadeirydd y Cyngor***

Penodir Cadeirydd y Cyngor gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd, sy'n adnewyddadwy. Cadeirydd y Cyngor trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Ceridwen Roberts.

### ***Trysorydd Mygedol***

Penodir y Trysorydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd sy'n adnewyddadwy. Y Trysorydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Huw Wynne-Griffith.

### ***Ysgrifennydd Mygedol***

Penodir yr Ysgrifennydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd sy'n adnewyddadwy. Yr Ysgrifennydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Lynn Williams.

### **Ysgrifennydd Digwyddiadau**

Sefydlwyd swydd newydd Ysgrifennydd Digwyddiadau yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad y bydd y swyddog newydd yn cymryd rhai o gyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Mygedol. Apwyntiwyd Sara Elin Roberts i'r rôl ar 1 Awst 2018.

### **Golygydd Mygedol**

Penodir y Golygydd Mygedol (sy'n golygu cylchgrawn y Gymdeithas, y *Trafodion*), gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd sy'n adnewyddadwy. Y Golygydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd yr Athro Helen Fulton.

### **Pwyllgorau'r Cyngor**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Pwyllgorau canlynol i gefnogi ei waith. Dyma aelodau'r Pwyllgorau a wasanaethodd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn:

#### **Pwyllgor Gweithredol**

Aelodau *ex officio*: Lynn Williams (Ysgrifennydd Mygedol) (Cadeirydd); Ceridwen Roberts (Cadeirydd y Cyngor); Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Mygedol)  
Aelodau a benodwyd gan ac o blith y Cyngor: Elinor Talfan Delaney; yr Athro Thomas Charles Edwards

#### **Pwyllgor Digwyddiadau**

Aelodau *ex officio*: Yr Athro Prys Morgan (Llywydd) (Cadeirydd); Lynn Williams (Ysgrifennydd Mygedol)  
Aelodau a benodwyd gan ac o blith y Cyngor: Yr Athro Stuart Cole; Robert John; Adrian Morgan; Rhian Medi Roberts  
Aelodau a benodwyd o blith aelodau'r Gymdeithas nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor: Sioned Bowen (o 30 Mai 2018); Christopher Edwards (o 30 Mai 2018)

#### **Pwyllgor Dyfarniadau a Medalau**

Aelod *ex officio*: Yr Athro Prys Morgan (Llywydd) (Cadeirydd)  
Aelodau a benodwyd gan ac o blith y Cyngor: Professor Stuart Cole (o 30 Mai 2018); Elinor Talfan Delaney; Arwyn Lloyd Hughes (tan 30 Mai 2018); Professor Thomas Charles-Edwards; Michael Gibbon  
Aelod a benodwyd o blith aelodau'r Gymdeithas nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor: Yr Athro John Elliott

Mae gan y Cyngor y pŵer dan y Siarter i ddirprwyo'r oll neu unrhyw rai o'i bwerau i bwyllgorau neu is-bwyllgorau ac mae ganddo amodau gorchwyl cymeradwy ar gyfer y Pwyllgor Gweithredu sy'n pennu'r amodau pan y gall y Pwyllgor Gweithredu weithredu pŵerau penodol y Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion y Gymdeithas.

# Amcanion Elusennol

Mae Siarter 1951 y Gymdeithas yn darparu fel a ganlyn:

Y mae'r Gymdeithas drwy hyn yn gorfforedig ac i'w chynnal gyda'r amcanion canlynol:-

- (A) Yn amodol ar unrhyw ganiatâd neu gydsyniad angenrheidiol i drosglwyddo'r Hen Gymdeithas ei hasedau a'i rhwynedigaethau ac i barhau a datblygu gwaith yr Hen Gymdeithas.
- (B) Cefnogi astudiaeth ac ymchwil mewn Llenyddiaeth, Hanes, y Celfyddydau a'r Gwyddorau i'r graddau y maent o ddiddordeb arbennig i'r Cymry.
- (C) Hyrwyddo datblygiad Llenyddiaeth, y Celfyddydau a'r Gwyddorau yng Nghymru.
- (D) Darparu cyfleusterau i ysgolheigion ddarllen papurau a chyhoeddi gweithiau ar Llenyddiaeth, Hanes, y Gwyddorau a'r Celfyddydau i'r graddau y maent o ddiddordeb arbennig i'r Cymry.
- (E) Darparu fforwm cyffredinol i drafod materion a mudiadau sydd yn dylanwadu'n arbennig ar ddiwylliant Cymru.
- (F) O bryd i'w gilydd cefnogi cynlluniau newydd a fydd o fantais i Gymru o ran ysgolheictod ac addysg.

Yn ychwanegol at yr amcanion hyn, mae'r Gymdeithas yn bodoli i hyrwyddo Llenyddiaeth, Hanes, y Celfyddydau a Gwyddoniaeth (yn cynnwys y Gwyddorau Cymdeithasol) cyn belled ag y maent o ddiddordeb arbennig i bobl Cymreig ac i hwyluso trafodaethau ar y pynciau hyn.

## Gweithgareddau a Chyflawniadau

Yn ogystal â delio a'r tasgau sylfaenol i sicrhau ei chadernid ariannol a chynnal ei systemau a gweithdrefnau llywodraethu, yn ystod 2016, parhaodd y Gymdeithas i gyflawni ei hamcanion trwy ganolbwyntio ar gyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- trefnu rhaglen flynyddol o ddarlithoedd a thrafodaethau;
- dethol derbynnydd diweddaraf ei Medal a threfnu seremoni gyflwyno;
- cyhoeddi'r cylchgrawn, *Trafodion*, a darparu gwybodaeth ar-lein;
- annog astudiaeth ac ymchwil;
- gweithio gyda sefydliadau eraill.

### Rhaglen o Ddarlithoedd a Thrafodaethau

Mae'r rhaglen o ddarlithoedd yn darparu llwyfan ar gyfer materion o bwysigrwydd i Gymru, i'w hystyried o fewn y Dywysogaeth a thu hwnt i'w ffiniau. Cyhoeddir darlithoedd y Gymdeithas ar y wefan a thrwy raglen wedi ei phrintio a anfonir at yr aelodau. Maent yn agored i'r cyhoedd ac mae mynediad am ddim.

Traddodwyd un ddarlith ar ddeg yn ystod blwyddyn galendr 2018. Roedd y rhain yn cynnwys Darlith Goffa Flynyddol June Gruffydd, a drefnwyd y cyd gyda Chymdeithas Sir Drefaldwyn; y ddarlith Gymraeg flynyddol a noddwyd gan Lywodraeth Cymru; Darlith Goffa flynyddol Syr Thomas Parry-Williams, a gynhaliwyd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol; a'r darlith flynyddol a gynllunir mewn cysylltiad â Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Cynhaliwyd yr holl ddarlithoedd yn Llundain ac eithrio'r un a draddodwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol (a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd) a'r ddarlith flynyddol a drefnwyd ar y cyd â Chymdeithas Ddysgedig Cymru (a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd).

**Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018**

*The Welsh Economy in a Changing World*

Siaradwr: Yr Athro Gerry Holtham, Partner Rheolaethol, Cadwyn Capital ac Athro Ymweledol mewn Economi Rhanbarthol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Yr Athro Stuart Cole, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2018** (Darlith Goffa June Gruffydd, mewn cysylltiad â Chymdeithas Maldwyn)

*What Exactly is Folk Song?*

Siaradwr: John Jones, Cadeirydd Cymdeithas Maldwyn  
Michael Gibbon, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018**

*'The Journey' – From the Menai Straits to Venice with Sir Kyffin Williams RA*

Siaradwr: David Meredith, awdur *Bro a Bywyd / His Life, His Land: Kyffin Williams*  
Elinor Talfan Delaney, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Iau, 26 Ebrill 2018**

*Wales and its Precious Rural Landscapes: the Economy versus the Environment*

Siaradwr: William McNamara OBE, Prif Weithredwr, Cyrchfan Parc Cenedlaethol Bluestone  
Robert John, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mercher, 30 Mai 2018**

*Richard Price: a Paradoxical Revolutionary*

Siaradwr: Paul Frame, Ysgrifennydd Cymdeithas Richard Price ac awdur *Liberty's Apostle: Richard Price, his life and times*  
Dr Lynn Williams, Ysgrifennydd Mygedol, yn y gadair

**Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2018** (y ddarlith Gymraeg flynyddol, a noddir gan Lywodraeth Cymru)

*William Morris a Thomas Pennant: Cysylltiadau Cyffredin*

Siaradwraig: Dr Ffion Mair Jones, Cymrawd Ymchwil, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru  
Rhian Medi Roberts, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mawrth, 7 Awst 2018** (Darlith Goffa Syr Thomas-Parry Williams, Darlith Flynyddol yr Eisteddfod)

*Bydded cyfiawnder! Farwél i EnglandandWales*

Siaradwr: Emyr Lewis, Partner ac Uwch Bartner Rhanbarthol Cymru, Blake Morgan Cyfreithwyr LLP  
Yr Athro Prys Morgan, Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair

**Dydd Mercher, 26 Medi 2018** (mewn cysylltiad â Wales in London)

*Tomorrow's News: reinventing broadcast news in a digital age*

Siaradwr: Huw Edwards, darlledwr ac awdur  
Rhian Medi Roberts, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018**

*Curious Travellers: Tours of Wales 1760-1820*

Siaradwraig: Dr Mary-Ann Constantine, Darllenydd ac Arweinydd Prosiect, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru  
Yr Athro Prys Morgan, Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair



## **Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018**

*The Women's Suffrage Movement in Wales*

Siaradwr: Dr Ryland Wallace, gynt yn Ddarlithydd yng Ngholeg Gwent ac awdur *The Women's Suffrage Movement in Wales, 1866–1928*

Ceridwen Roberts, Cadeirydd y Cyngor, yn y gadair

## **Dydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2018** (mewn cysylltiad â Chymdeithas Ddysgedig Cymru)

*Bilingualisms and Multilingualisms in Medieval Wales*

Siaradwr: Yr Athro Paul Russell, Athro mewn Celteg, Adran Eingl-Sacsonaidd, Norseg a Chelteg, Prifysgol Caergrawnt

Yr Athro Thomas Charles-Edwards, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

Mae'r Cyngor yn dra diolchgar i'r rhai a dderbyniodd ei wahoddiad i ddraddodi darlithioedd ac i'r rhai oedd wedi cadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r Cyngor hefyd am ddiolch i staff Cymdeithas Feddygol Llundain ble y cynhaliwyd pob un ond un o ddarlithoedd Llundain, a Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Heol Fictoria a ddarparodd y lleoliad ar gyfer y ddarlith flynyddol yn y Gymraeg. Mae hefyd yn ddiolchgar am y cymorth a gafwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd, ym Mhrifysgol Caerdydd, yn ogystal â chan y sefydliadau eraill y trefnwyd darlithoedd gyda hwy.

Roedd nifer dda wedi mynychu'r darlithoedd a'r cyfraniadau i'r rhaglen o ansawdd uchel ac yn ysgogi diddordeb sylweddol yn y gynulleidfa, fel y gwelwyd yn y sesiynau gofyn ac ateb a thrafodaethau bywiog a ddilynodd y darlithoedd.

## **Cyhoeddiadau a gwybodaeth ar-lein**

Mae dosbarthu gwybodaeth yn elfen allweddol o waith y Gymdeithas. Gwna hyn yn bennaf trwy gyhoeddi'r cylchgrawn, y *Trafodion*, a thrwy ei gwefan.

### ***Trafodion* y Gymdeithas**

Cyhoeddwyd Cyfrol 23 (2017) yng Nghyfres Newydd y *Trafodion* yn ystod y flwyddyn ac anfonwyd copi i bob un o aelodau unigol a chorfforaethol y Gymdeithas yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r Cyngor yn diolch i'r holl gyfranwyr ac yn cofnodi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y Golygydd Mygedol a'r Bwrdd Golygyddol.

Mae erthyglau o gyfrolau'r *Trafodion* hyd at 2005 ar gael trwy borth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, *Cylchgronau Cymru*, ac mae erthyglau a gyhoeddwyd ers 2005 ar gael i'r cyhoedd (yn destun i waharddiad o ddwy flynedd ar ryddhau deunydd i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas) trwy wefan y Gymdeithas. Bydd testun erthyglau o gyfrol 22 (2016) a blynyddoedd i ddilyn ar gael ar-lein trwy gytundeb trwydded gyda Gwasanaethau Gwybodaeth EBSCO, sef cwmni o UDA sy'n darparu cronfa ddata a gwasanaethau llyfrgell eraill i sefydliadau academiaidd a sefydliadau eraill.

### **Darparu gwybodaeth ar-lein**

Defnyddir y wefan i hysbysebu digwyddiadau'r Gymdeithas ac i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau eraill. Gwneir recordiadau clywedol o'r rhan fwyaf o'r darlithoedd ac mae'r rhain ar gael i'r aelodau fel podlediadau. Yn ystod y flwyddyn cymeradwydd y Cyngor wariant ar wella darpariaeth rheolaeth cyfryngau cymdeithasol am gyfnod prawf o un flwyddyn i gychwyn.

## **Annog astudiaeth ac ymchwil**

Dros y blynyddoedd mae'r Gymdeithas wedi ceisio annog a chefnogi astudiaeth ac ymchwil ar draws meysydd sy'n destun i'w hamcanion elusennol, yn cynnwys darparu grantiau i sefydliadau eraill. Parhaodd hyn yn ystod 2018.

### **Cadair Gelteg Coleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen**

Ers ei sefydlu yn 1877, Cadair Gelteg Coleg yr Iesu, ym Mhrifysgol Rhydychen yw'r hynaf o'i bath yn y byd. Mae sgôp y Gadair, sy'n gysylltiedig â Choleg yr Iesu, yn cwmpasu'r holl wledydd Celtaidd, yn cynnwys yr Iwerddon ac Ewrop ond yn gysylltiedig fwyaf â Chymru. Dros y blynyddoedd mae llawer o fyfyrwyr y Broffeswriaeth wedi derbyn safleoedd allweddol ym mywyd diwylliannol a deallusol Cymru. Mae i'r Gadair arwyddocâd hirfaith i astudiaethau Cymraeg a Chelteg yn fwy eang yn ogystal â phroffil rhyngwladol ysgoloriaeth Gymreig.

Fodd bynnag, mae'r Gadair wedi bod yn wag ers 2011 oherwydd diffyg arian. Ar ddau achlysur, yn 2012 a 2017, mae'r Llywydd wedi ysgrifennu at yr awdurdodau yn y Brifysgol ac yng Ngholeg yr Iesu i fynegi ei bryder a phryder y Cyngor ynghylch y sefyllfa ac i gynnig cefnogaeth yn nhermau codi ymwybyddiaeth o'r materion ac ymdrechion y Brifysgol a Choleg yr Iesu i oresgyn y rhwystrau ariannol i lenwi'r Gadair. Amcangyfrifwyd mai cost y Gadair, am byth, fyddai £3.25 miliwn. Ym mis Hydref 2018, roedd y Cyngor yn falch i dderbyn adroddiad, yn dilyn cyfraniadau sylweddol gan Goleg yr Iesu a'r Brifysgol, yn ogystal â chefnogaeth hael gan gyn-fyfyrwyr ac unigolion a sefydliadau eraill, bod yr apêl ond rhyw ddegau o filoedd yn llai na'r targed. Penderfynodd y Cyngor i roi grant o £5,000 i'r Gronfa Gwaddol fel cyfraniad tuag at yr ymdrechion i gyrraedd y targed. Gobeithir y llenwir y Gadair yn ystod 2019.

## **Gweithio gyda sefydliadau eraill**

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i weithio gyda sefydliadau yng Nghymru, neu sydd â chysylltiadau â Chymru. Llwyddwyd i gynnal cysylltiadau da gyda Swyddfa ei Noddwr Brenhinol, Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru. Mae'r Cyngor yn falch i nodi adnewyddu Nawdd y Tywysog am gyfnod pellach o bum mlynedd, tan 2023, ac ym mis Mai 2018, mynychodd cynrychiolwyr y Gymdeithas dderbyniad ym Mhalas Buckingham i nodi penblwydd Ei Uchelder Brenhinol yn 70. Unwaith eto darparodd yr Eisteddfod Genedlaethol gyfleusterau ar gyfer Darlith flynyddol y Gymdeithas yn yr Eisteddfod yn 2018, Darlith Goffa Syr Thomas Parry-Williams, a phedwaredd Ddarlith Flynyddol y Cymmrodorion / Cymdeithas Ddysgedig Cymru a gynhaliwyd yn Rhagfyr. Yn ogystal, apwyntiwyd yr Ysgrifennydd Mygedol fel cynrychiolydd y Gymdeithas ar Weithgor Astudiaethau Cymru y Gymdeithas Ddysgedig. Fel y nodwyd uchod, roedd y Gymdeithas yn falch i allu cefnogi ysgoloriaeth ym maes Astudiaethau Celtaidd trwy roi cyfraniad i'r gronfa apêl i Gadair Gelteg Coleg yr Iesu ym Mhrifysgol Rhydychen. Roedd y Gymdeithas hefyd yn gwerthfawrogi gallu cynnal digwyddiad ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn Adroddiad Blynyddol 2017 nodwyd gwerthfawrogiad y Cyngor i Ymddiriedolwyr Ysgol St David's yn Ashford, Middlesex (a sefydlwyd yn wreiddiol yn Llundain yn 1716 gan yr *Honourable and Loyal Society of Ancient Britons* fel yr Ysgol Eusennol Gymreig), a oedd wedi cau ei drysau yn 2009, am y rhodd o'r darlun o'r ddeunawfed ganrif hwyr, neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg cynnar, a adwaenwyd fel "*Poor Taff*" (a hefyd fel "*Sir Jeffery Morgan*" neu "*The Welsh Ambassador's Goat*"), ynghyd â rhodd o ychydig dros £2,000 i helpu i dalu costau adnewyddu'r darlun, a gwblhawyd yn 2017. Roedd y Cyngor yn falch i roi'r darlun fel nodwedd allweddol mewn arddangosfa yn Oriol Ynys Môn a agorodd ym Mai 2018 dan y teitl "*Poor Taff – A London View of the Welsh People*". Ag ystyried nad oes gan y Gymdeithas gartref parhaol, mae bod yn berchen ar ddarluniau yn broblem a phenderfynodd y Cyngor i roi'r darlun "*Poor Taff*" i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, i'w arddangos yn ei safleoedd yng Nghymru. Penderfynodd y Cyngor hefyd y dylid rhoi ail ddarlun sy'n berchen i'r

Gymdeithas, darlun dyfrlliw gan Syr Alfred East, “*The Valley of the Llugwy*”, i Oriel Ynys Môn, ble mae ar fenthyg ar hyn o bryd.

Bydd y flwyddyn 2023 yn nodi trichanmlwyddiant genedigaeth Richard Price DD FRS, un o Gymry Llundain mawr y ddeunawfed ganrif. Serch ehangder a phwysigrwydd ei gyflawniadau, nid yw Richard Price yn adnabyddus tu hwnt i sefydliadau academiaidd, yn enwedig efallai yn ei famwlad, Cymru. Mae nifer o sefydliadau wedi dod i’r casgliad bod y trichanmlwyddiant yn gyfle ardderchog i wneud yn iawn am yr esgeulustod hwn. Maent yn cynnwys Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Cymdeithas Richard Price (y cyfrannodd ei Hysgrifennydd, Paul Frame, ddarlith i Raglen y Gymdeithas yn ystod 2018) ac Eglwys Undodaidd Newington Green (ble roedd Price wedi’i leoli ac y bu i’r Gymdeithas gefnogi cais llwyddiannus yr eglwys am arian o Gronfa Treftadaeth y Loteri i adnewyddu’r eglwys yn 2016), yn ogystal â Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid (yn adlewyrchu’r ffaith yr oedd Price yn un o sylfaenwyr gwyddoniaeth actiwarïaidd modern). Ym Mai 2018, yn dilyn adroddiad am drafodaethau rhwng yr Ysgrifennydd Mygedol a chynrychiolwyr rhai o’r sefydliadau hyn, cytunodd y Cyngor y byddai’n briodol i’r Gymdeithas ymgysylltu â’r paratodau ar gyfer y trichanmlwyddiant fel modd o ddathlu bywyd a chyflawniadau Richard Price ac i godi ei broffil a pharhau’r cof amdano, yng Nghymru a thu hwnt.

## Sut Mae Gweithgareddau’r Gymdeithas yn Cyflwyno Budd Cyhoeddus

Yn ôl termau’r Ddeddf Elusennau 2011, mae amcanion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, fel y’u gosodir yn y Siarter, yn “amcanion elusennol” yn ôl diffiniad y Ddeddf. Maent yn cyflawni’r gofyn hwn trwy (i) fod er budd y cyhoedd a (ii) thrwy gyflawni’r disgrifiad o ddau o’r amcanion a ddiffinir yn Rhan 1, adran 2, is-adran 2 y Ddeddf, sef:

b) hyrwyddo addysg; a

f) hyrwyddo’r celfyddydau, treftadaeth neu wyddoniaeth.

Ymhlith gweithgareddau’r Gymdeithas sydd o fudd i’r cyhoedd mae’r rhain yn benodol:

- (1) hyrwyddo, cefnogi a hybu astudiaeth ac ymchwil a dosbarthu canlyniadau hyn i’r cyhoedd;
- (2) hwyluso trafodaeth wybodus a rhyngweithredu’r cyhoedd ar ystod o faterion a phynciau, gan alluogi gwelliant yn nealltwriaeth y cyhoedd, ac ym mywyd deallus yn gyffredinol.

Y cyhoedd a “chymdeithas” yn gyffredinol, yn Llundain a Chymru ac yn ehangach, yw’r rhai sy’n elwa o weithgareddau’r Gymdeithas, fel nad yw’r buddion wedi eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar angen elusennol.

Rhydd y gweithgareddau fudd i’r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd: trwy roi llwyfan tu hwnt i ffiniau Cymru i ystyried materion o bwysigrwydd i Gymru; trwy drefnu rhaglen o ddarlithoedd a thrafodaethau, yn cynnwys darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sydd yn agored ac yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd; trwy gefnogi ysgolheictod ac ymchwil megis y Bywgraffiadur; trwy gyhoeddi a

dosbarthu gwybodaeth yn y *Trafodion*, yn ogystal â thrwy wefan y Gymdeithas, sy'n gwneud gwybodaeth ar gael i gynulleidfa eang; a thrwy gydweithredu â sefydliadau eraill.

### **Datganiad Budd Cyhoeddus**

Mae aelodau'r Cyngor, sy'n gweithredu yn unol â'u swyddogaeth fel Ymddiriedolwyr, wedi cydymffurfio â'r gofyn hanfodol bod elusennau llai yn adrodd ar Fudd Cyhoeddus, ac yn eu dyletswydd i ystyried canllawiau budd cyhoeddus y comisiwn pan yn defnyddio'r pwerau neu'r dyletswyddau sy'n berthnasol i'r canllawiau.

## **Datganiad**

Yn unol â chyfraith elusen, rydym ni, ymddiriedolwyr yr elusen, yn ardystio:

ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod archwiliwr annibynnol yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth yna.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â:

- *Datganiad Ymarfer a Argymhellir: Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau* (Ionawr 2015); a
- chanllaw y Comisiwn Elusennau, *Budd cyhoeddus; y gofyniad budd cyhoeddus (PB1); Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)*, a *Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)* (pob un ym Medi 2013).

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y Cyngor ac arwyddwyd ar ei ran gan:

.....  
Ceridwen Roberts (Cadeirydd y Cyngor)

.....  
Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Mygedol)

.....  
Dr Lynn Williams (Ysgrifennydd Mygedol)

Dyddiad: 26 Chwefror 2019

# Arolwg Ariannol

Tua diwedd y flwyddyn clywodd y Gymdeithas am farwolaeth drist Mr Richard Lewis a oedd am rai blynyddoedd wedi gweithredu fel Archwiliwr Annibynnol cyfrifon y Gymdeithas. Apwyntir yr Archwiliwr Annibynnol gan aelodau'r Gymdeithas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ond, yn amlwg, nid oedd yn bosibl apwyntio yn y dull hwn os oedd y cyfrifon i'w cymeradwyo gan y Cyngor a'u harchwilio cyn eu cyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf ym mis Mai 2019. Felly, cymeradwyodd y Cyngor benderfyniad y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd Mygedol a'r Trysorydd Mygedol, i wahodd Mr Adrian Waddingham CBE FIA i weithredu fel Archwiliwr Annibynnol cyfrifon 2018, a derbyniodd ef y gwahoddiad.

Mae sefyllfa ariannol y Gymdeithas yn parhau i fod yn iach. Ar ddiwedd 2018 roedd gwerth ei asedau yn £181,881 yn cynnwys arian parod o £18,733. Gwerth yr asedau yw £6,081 yn llai na'r gwerth flwyddyn ynghynt oherwydd, ran fwyaf, y cwmp yn y marchnadoedd buddsoddi (buddsoddir dros £160,000 o gronfeydd arian y Gymdeithas dros gyfnod hirdymor).

Mae Cyfrif y Refeniw yn dangos gorwerth am y flwyddyn o £5,895 (o'i gymharu â diffygion o £6,185 yn 2017). Roedd yr incwm o danysgrifiadau i fyny 14% ar llynedd. Roedd hyn oherwydd adennill llawer o'r taliadau debyd uniongyrchol oedd wedi methu am amryw resymau y llynedd. Golygodd colled yr incwm tansygrifiadau, er ei adennill, bod lleihau yn y dreth a ellid ei gael yn ôl dan y Cynllun Cymorth Rodd.

Cyfanswm y gwariant oedd £23,734. Mae hyn lawer yn llai na'r £35,101 a wariwyd yn 2017. Y prif reswm dros hyn yw bod eitemau a gynhwyswyd yn 2017 heb eu hailadrodd yn 2018; er enghraifft, cost yr arolwg marchnata, cost lanlwytho cyn-gyfrolau'r Trafodion i'r wefan a'r costau ynghlwm mewn cyflwyno medal y Gymdeithas a gynhwyswyd yn 2017 ond ddim yn 2018.

Caiff y Gymdeithas incwm sylweddol o'i buddsoddiadau. Cyfanswm hyn oedd £6,770 (11% i fyny ar 2017). Mae'r incwm hwn yn cynrychioli 23% o'r holl incwm a dderbyniwyd ac mae'n helpu i liniaru effeithiau chwyddiant ar gostau'r Gymdeithas ac hefyd yn cynnal lefel y tansygrifiad blynyddol.

Nid yw'r Gymdeithas yn cyflogi Staff ac felly nid oes costau ynghlwm. Mae hyrwyddo ei gweithgareddau yn ddibynnol iawn ar fewnbwn gwirfoddol aelodau'r Cyngor ac aelodau eraill y Gymdeithas.

## Ystadegau Aelodaeth

610 oedd nifer aelodau'r Gymdeithas ar ddiwedd 2018. Dyma fanylion y cyfanswm (gyda ffigyrau 2017 mewn cromfachau):

Unigolion yn y DU	488	(496)
Sefydliadau yn y DU	62	(63)
Unigolion dramor	20	(21)
Sefydliadau dramor	40	(40)

Ymunodd 26 aelod newydd yn ystod 2018.

## Polisi ar Gadw a Buddsoddi Cronfeydd

Mae'r Gymdeithas wedi cronni cronfeydd dros y blynyddoedd. Crëwyd y cronfeydd hyn am ddau reswm:

- yn gyntaf, i sicrhau, pe bae'r Gymdeithas yn mynd trwy adeg o gynni, yna byddai digon o adnoddau i barhau i weithredu nes bod amgylchiadau gwell yn bodoli;
- yn ail, ac yn bwysig, i ddarparu arian i ariannu prosiectau penodol o natur cyfalaf a oedd yn rhy fawr i'w hariannu gan lefelau incwm arferol y Gymdeithas.

Mae'r Cyngor yn ystyried gwariant dan yr ail gategori yn "wariant cyfalaf".

Mae asedau'r Gymdeithas yn cynnwys arian parod (tua £18,700 ar 31 Rhagfyr 2018) ynghyd â'i buddsoddiadau (tua £163,000).

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y cymhwysir y cronfeydd ac mae'r Cyngor yn ystyried bod ganddo'r grym i gronni incwm i mewn i'r cronfeydd. Fodd bynnag, nid bwriad y Cyngor yw cronni cronfeydd heblaw am y dibenion a amlinellir uchod. Fel arfer nid oes unrhyw fwriad i ychwanegu at fuddsoddiadau'r Gymdeithas na'u realeiddio.

Mae'r Gymdeithas wedi cymeradwyo polisi buddsoddiad a adolygir yn flynyddol (yn Chwefror 2018 yn fwyaf diweddar). Yn gyfredol, mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd i elusennau'n unig, un buddsoddiad mewn soddgyfrannau ac un arall mewn bondiau. Rhennir y cronfeydd, yn gyfartal ar y cyfan, rhwng dau sefydliad buddsoddi blaenllaw, M&G Investments a Schroder.

Anrhydeddus Gymdeithas  
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society  
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

## **ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**

### **DATGANIADAU CYLLIDOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 RHAGFYR 2017**

R A J Waddingham CBE FIA  
Flat 33  
Riverside Court  
20 Nine Elms Lane  
London  
SW8 5DB

## **Adroddiad yr Arholwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwyr**

### **Cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2018**

Adroddaf i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2018.

### **Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusennol yr Ymddiriedolaeth, yr ydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion y Ddeddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf ar fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd dan adran 145 y Ddeddf ac wrth wneud yr archwiliad rwyf wedi canlyn y cyfarwyddiadau perthnasol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau dan adran 145(5)(b) y Ddeddf.

### **Datganiad yr arholwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf na ddaeth unrhyw faterion perthnasol i'm sylw mewn gysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw fodd perthnasol:

- na chadwyd cofnodion y cyfrifon yn unol â gofynion rhan 130 y Ddeddf neu
- nad yw'r cyfrifon yn gyson â chofnodion y cyfrifon.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt er mwyn galluogi dealltwriaeth iawn o'r cyfrifon.

**Arwyddwyd:**

**Dyddiad:**

**R A J Waddingham CBE  
Fellow of The Institute and Faculty of Actuaries  
Flat 33  
Riverside Court  
20 Nine Elms Lane  
London  
SW8 5DB**



## **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

### **Cofnodion cyfrif**

Y mae rhan 130 o'r Ddeddf Elusennau'n gosod rheidrwydd ar ymddiriedolwyr i sicrhau digonedd y cofnodion cyfrif i:

- (a) ddangos ac egluro holl weithredau'r elusen;
- (b) ddatgelu, unrhyw bryd, gyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen bryd hynny;
- (c) alluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod unrhyw ddatganiad o gyfrif sy'n angenrheidiol o dan rhan 42(1) yn unol â gofynion unrhyw reolau a wneir dan y rhan honno;

ac, yn arbennig, i gynnwys:

- (d) cofnodion yn dangos, o ddydd i ddydd, holl dderbyniadau a thaliadau ariannol yr elusen a'r materion y mae'r derbyniadau a'r taliadau hynny yn digwydd o'u herwydd; a
- (e) chofnod o asedion a dyledion yr elusen.

Y mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am warchod asedion yr elusen a thrwy hynny yn gyfrifol am wneud trefniadau rhesymol i ddatgelu ac atal twyll, camgymeriad neu unrhyw gamweinyddu arall.

Wrth baratoi'r cyfrifon disgwylir i'r ymddiriedolwyr ddewis polisiau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson, gan farnu ac amcangyfrif yn ddarbodus ac yn rhesymol. Mae'r cyfrifon wedi eu darparu ar sail "derbyniadau a thaliadau" o dan rhan 133 o'r Ddeddf.

## DERBYNIADAU A THALIADAU

	2018	2017
	£	£
<b>DERBYNIADAU</b>		
Tanysgrifiadau	19,518	17,115
Cyfraniad Cymdeithas Maldwyn	200	200
Incwm Buddsodiadau	6,770	6,092
Gwerthiant Y Bywgraffiadur Cymreig	10	4
Gwerthiant cyhoeddiadau eraill	103	12
Ad-daliad treth Cymorth Rhodd	2,627	2,945
Cymdeithas Drwyddedu Cyhoeddwy	351	345
Cymynroddion	50	2,230
<b>CYFANSWM DERBYNIADAU</b>	<b>29,629</b>	<b>28,943</b>
<b>TALIADAU</b>		
Treuliau cyfarfodydd darlith	6,398	6,716
Cylchgrawn y Gymdeithas, y Trafodion	5,228	8,620
Wefan ac IT	2,088	3,472
Gohebiaeth y CCB	510	429
Rhaglen	364	174
Rheoli'r Archifau	40	31
Gohebiaethau eraill	1,025	59
Gweinyddiaeth	1,092	1,271
Mân gostau	46	960
Grant Goleg Yr Iesu (Bywgraffiadur Cymreig yn 2017)	5,000	5,000
Costau Charities Aid Foundation, PayPal & GoCardless	269	274
Marchnata	0	3,673
Medalau & chyflwyniadau	96	3,524
Gwasanaethau Cyfieithu	1,578	898
<b>CYFANSWM O DALIADAU</b>	<b>23,734</b>	<b>35,101</b>
<b>GORGED DERBYNIADAU TROS DALIADAU</b>	<b>5,895</b>	<b>-6,158</b>

**ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION**

**DATGANIADAU CYLLIDOL HYD AT 31 RHAGFYR 2018**

**RHESTR ASEDAU AR 31 RHAGFYR 2018**

	<b>2018</b>	2017
	£	£
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>		
Buddsoddiadau am y gost (Nodyn)	<b>154,767</b>	154,767
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>		
HSBC Cyfrif Cyfredol	<b>18,065</b>	12,654
HSBC Cyfrif Adnau	<b>7</b>	7
HSBC Ail Gyfrif	<b>315</b>	75
Cyfrif PayPal	<b>346</b>	101
<b>ASEDAU CYFAN</b>	<b><u>173,500</u></b>	<u>167,605</u>

<b>Nodyn</b>	<b>2018</b>	<b>2018</b>	2017	2017
	<b>Cost</b>	<b>Gwerth</b>	Cost	Gwerth
	£	£	£	£
Buddsoddiadau				
M&G Charifund	<b>34,000</b>	<b>37,308</b>	34,000	43,037
M&G Charibond	<b>39,000</b>	<b>36,296</b>	39,000	37,708
Schroder Charity Equity Fund	<b>42,767</b>	<b>50,197</b>	42,767	53,349
Schroder Charity Bond Fund	<b>39,000</b>	<b>39,347</b>	39,000	41,030
	<b><u>154,767</u></b>	<b><u>163,148</u></b>	<u>154,767</u>	<u>175,124</u>

<b>Cymod Cronfaoedd</b>	<b>2018</b>	2017
	£	£
Cronfaoedd 1 Ionawr	<b>167,605</b>	173,763
Gorged am y flwyddyn	<b>5,895</b>	-6,158
Cronfaoedd 31 Rhagfyr	<b>173,500</b>	167,604

**Arwyddwyd:**

**Dyddiad:**

**H R Wynne-Griffith  
Trysorydd Mygedol  
Ar ran yr Ymddiriedolwyr**